**Cynhyrchwyd ar ran: AQA, CBAC, City & Guilds, CCEA, OCR a Pearson**

# Gwybodaeth i Ymgeiswyr – Hysbysiad Preifatrwydd

## Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol

Mae pob aelod o'r Cyd-gyngor Cymwysterau[CIC] (sef "Cyrff Dyfarnu'r CGC" ar y cyd) ("**ni**" neu "**ein**") wedi ymrwymo i barchu a diogelu eich preifatrwydd. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn ar gyfer ymgeiswyr ein harholiadau (yr "**ymgeisydd**") ac, ar gyfer ymgeiswyr sydd o dan 18 mlwydd oed neu sydd â pherson(au) yn gwneud penderfyniadau drostynt, ar gyfer y person(au) sydd â chyfrifoldeb rhiant neu sy'n cael ei penodi i wneud penderfyniadau dros yr ymgeisydd ("**chi**", "**eich**").

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn rhoi gwybod i chi am sut rydym yn prosesu eich data personol (yn cynnwys sut rydym yn casglu, yn defnyddio ac yn rhannu eich data personol) a sut bydd eich data personol yn cael eu prosesu gan unrhyw drydydd parti arall y byddwn yn rhannu eich data ag ef. Mae gan yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn gwmpas cyfyngedig, sy'n cael ei ddisgrifio isod (y "**Cwmpas**"). Gweler ein Hysbysiadau Preifatrwydd eraill am ein ffyrdd eraill o brosesu eich data personol.

Yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn, mae gan bob un o'r termau "**data personol**", "**rheolydd data**" a "**prosesydd data**" ystyr arbennig, a bennir gan ddeddfwriaeth (y "**ddeddfwriaeth diogelu data**"). Y ddeddfwriaeth diogelu data yw: Deddf Diogelu data 2018 ac, o'r dyddiad mae'n dod i rym yn y Deyrnas Unedig, Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yr UE (2016/679).

### 1 <u>Cwmpas a phwrpas</u>

1.1 Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn rhoi gwybod i chi am sut byddwn ni'n prosesu eich data personol mewn perthynas ag arholiadau ac asesiadau (yr "**arholiadau**") sy'n cael eu cynnal gan Gyrff Dyfarnu'r CGC.

1.2 Lle y byddwn yn prosesu eich data personol o fewn y Cwmpas, byddwn ond yn eu prosesu yn unol â'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn (ac unrhyw wybodaeth arall yr ydym yn ei rhoi i chi am sut rydym yn prosesu eich data personol) ac yn unol â'r ddeddfwriaeth gwarchod data.

### 2 <u>Eich rheolydd data</u>

2.1 Mae pob aelod unigol o Gyrff Dyfarnu'r CGC yn rheolydd data ar wahân o ran eich data personol.

2.2 Mae eu cyfeiriadau, a manylion cyswllt dros y ffôn ac e-bost, i'w gweld yn <u>www.jcq.org.uk/contact-us/contact-details-for-jcq-and-members.</u> Mae Cyrff Dyfarnu'r CGC ar gael ddydd Llun i ddydd Gwener, 9am tan 5pm (GMT) ac eithrio ar ddiwrnodau gwyliau cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig.

### 3 <u>Swyddfa Diogelu Data</u>

3.1 Mae gan pob aelod unigol o Gyrff Dyfarnu'r CGC ei drefniadau ei hun ar gyfer diogelu eich data personol. Mae manylion cyswllt swyddfa diogelu data pob Corff Dyfarnu'r CGC ar gael drwy'r cysylltau a ddarperir uchod (dan "Eich rheolydd data").

## 4 Gwybodaeth y casglwn amdanoch

4.1 O fewn y Cwmpas, rydym yn cael eich data personol o'r ffynonellau canlynol:

4.2 Yn uniongyrchol gennych chi.

4.2.1 Byddwch yn gwybod pa ddata personol byddwn yn eu cael gennych, oherwydd eich bod (neu rywun rydych yn ymddiried ynddyn nhw, ac a awdurdodwyd gennych, megis aelod o'ch teulu) wedi eu rhoi i un neu fwy ohonom. Mae enghreifftiau o sut mae Cyrff Dyfarnu'r CGC yn cadw data personol gennych yn cynnwys: data personol sy'n rhan o'ch gwaith sy'n cael ei arholi neu ei asesu, pan fyddwch yn gofyn am drefniadau arbennig ac addasiadau rhesymol er mwyn i chi gyflawni arholiad (y "**Trefniadau Mynediad**") a/neu ystyriaeth arbennig, a phan fyddwch yn rhoi gwybodaeth i ni drwy lythyr, e-bost neu ddulliau eraill yn cynnwys pan fyddwch yn siarad â ni ac rydym yn gwneud cofnod o'r sgwrs ar y pryd neu ar ôl hynny.

4.3 O'r ganolfan i Gyrff Dyfarnu'r CGC

4.3.1 Gall Cyrff Dyfarnu'r CGC dderbyn y data personol canlynol amdanoch gan y Ganolfan neu unrhyw drydydd parti arall:

(i) unrhyw ddata personol rydych chi'n eu rhoi i'r Ganolfan neu drydydd parti arall sy'n gweinyddu eich arholiadau (megis eich cofrestru ar gyfer arholiadau), gan gynnwys y data categori arbennig a'r data personol gofynnol y cyfeirir atynt isod yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn, a'r wybodaeth a ddarparwyd gennych i'r Ganolfan neu drydydd parti am bobl eraill;

(ii) gohebiaeth y gallai'r ganolfan ei chyhoeddi (neu ei chopïo) i Gyrff Dyfarnu'r CGC; a

(iii) cofnodion a wnaed gan y ganolfan am y sgwrs pan fyddwch yn siarad â'r ganolfan (ar y pryd, neu ar ôl hynny).

4.4 Wedi'u creu gennym ni

4.4.1 Gall Cyrff Dyfarnu'r CGC greu'r data personol canlynol amdanoch chi:

(i) Dangosydd Ymgeisydd Unigryw (yr "UCI") neu Rif Dysgwr Unigryw (yr "ULN") a ddyrannwyd i chi gan Gyrff Dyfarnu'r CGC, y mae'n rhaid i'r ganolfan ei nodi ym mhob arholiad, ac wrth weinyddu arholiadau yn cynnwys gohebiaeth â Chyrff Dyfarnu'r CGC;

(ii) canlyniadau'r arholiadau rydych yn eu sefyll;

(iii) pob tystysgrif arholiad (y "**tystysgrif**") a ddyfarnwyd i chi;

(iv) canlyniad unrhyw ymchwiliad sy'n cael ei gynnal gan Gyrff Dyfarnu'r CGC i unrhyw arholiad rydych chi wedi'i sefyll neu unrhyw dystysgrif;

(v) canlyniad unrhyw apêl gennych sy'n cael ei benderfynu gan Gyrff Dyfarnu'r CGC; a

(vi) gohebiaeth sy'n cael ei chyhoeddi (neu ei chopïo) i'r ganolfan (neu unrhyw drydydd parti arall) gan Gyrff Dyfarnu'r CGC.

4.5 O ffynonellau eraill

4.5.1 Gall unrhyw Gorff Dyfarnu'r CGC dderbyn data personol amdanoch gan unrhyw Gorff Dyfarnu CGC arall neu gan unrhyw drydydd parti arall fel a ganlyn:

(i) (lle mae gennych gyfrifoldeb rhiant dros yr Ymgeisydd, neu'n gwneud penderfyniadau drosto) gan yr ymgeisydd neu rywun maent yn ymddiried ynddo, megis eu teulu;

(ii) awdurdodau lleol, ymarferwyr meddygol yn cynnwys ymarferwyr iechyd meddwl (o ran Trefniadau Mynediad a/neu ystyriaeth arbennig), yr Heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron (o ran troseddau'n ymwneud ag Arholiadau), ac asiantaethau mewnfudo.

## 5 <u>Data categori arbennig y casglwn amdanoch</u>

5.1 O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae statws arbennig (y "**data categori arbennig**") yn perthyn i'r categorïau canlynol o ddata personol. Bydd Cyrff Dyfarnu'r CGC yn eu derbyn gan y ganolfan a gallent eu casglu yn uniongyrchol gennych chi: data personol yn datgelu tarddiad hiliol neu ethnig, safbwyntiau gwleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, data'n ymwneud â iechyd, data'n ymwneud â bywyd rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol person byw, a data'n ymwneud â throseddau gwirioneddol neu honedig.

5.2 O fewn y Cwmpas, bydd Cyrff Dyfarnu'r CGC yn cael data categori arbennig amdanoch chi o unrhyw un o'r ffynonellau uchod am y canlynol, lle bo hynny'n berthnasol:

5.2.1 eich tarddiad hiliol neu ethnig, safbwyntiau gwleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol a chyfeiriadedd rhywiol, at bwrpasau megis monitro cydraddoldeb neu ddarparu Trefniadau Mynediad;

5.2.2 eich iechyd, at bwrpasau megis darparu Trefniadau Mynediad a/neu ystyriaeth arbennig; a

5.2.3 troseddau honedig neu wirioneddol yn ymwneud ag arholiadau rydych yn eu sefyll, megis twyll honedig.

## 6 <u>Plant ac oedolion gyda chynrychiolwyr</u>

6.1 Os ydych chi'n iau na 18 mlwydd oed, y person(au) sydd â chyfrifoldeb rhiant drosoch neu sy'n gwneud penderfyniadau drosoch chi sy'n gyfrifol am roi eich data personol i ni ac am roi ar waith eich hawliau o dan ddeddfwriaeth diogelu data. Os oes byth angen i ni gael cydsyniad gennych chi am brosesu eich data personol o fewn y Cwmpas, byddwn yn derbyn cydsyniad y person(au) hwnnw/hynny.

6.2 Os ydych chi'n iau na 18 mlwydd oed ond yn hŷn na 13 mlwydd oed, byddwn hefyd yn derbyn eich bod yn gymwys i wneud penderfyniadau am brosesu eich data personol. Felly gallwch chi roi cydsyniad i ni am brosesu a gallwch roi ar waith eich hawliau o dan ddeddfwriaeth diogelu data hefyd.

6.3 Mewn achosion eraill, hyd yn oed os ydych chi'n hŷn na 18 mlwydd oed, efallai y bydd angen i'r person(au) sy'n gwneud penderfyniadau drosoch chi ddarparu eich data personol, gadarnhau eich penderfyniadau cydsynio, a rhoi ar waith eich hawliau dan ddeddfwriaeth diogelu data.

## 7 <u>Eich dewisiadau am yr hyn rydym yn eu casglu (lleiafswm data personol)</u>

7.1 I gofrestru ymgeisydd ar gyfer unrhyw arholiad(au), ac i gynnal unrhyw waith gweinyddu cysylltiedig, mae ar y ganolfan a Chyrff Dyfarnu'r CGC angen o leiaf y data personol canlynol am yr ymgeisydd: enw, dyddiad geni, cyfeiriad cartref, rhyw, Dangosydd Ymgeisydd Unigryw, Rhif Dysgwr Unigryw, arholiadau rydych wedi'u cofrestru ar eu cyfer, gwybodaeth yn ymwneud â Threfniadau Mynediad, presenoldeb yn yr arholiad, sgript(iau) yr arholiad, canlyniadau'r

arholiad, cadarnhad o'r arholiad(au) a ddyfarnwyd gan Gyrff Dyfarnu'r CGC i'r ymgeisydd, data personol yn ymwneud ag unrhyw ymchwiliad neu apêl, a gohebiaeth rhwng y ganolfan a Chyrff Dyfarnu'r CGC.

7.2 Os nad chi yw'r ymgeisydd, mae ar y ganolfan a Chyrff Dyfarnu'r CGC angen y data personol canlynol amdanoch chi: enw a manylion cyswllt at bwrpasau cysylltu a gohebu gyda chi.

7.3 Os yw'n well gennych i ni ddefnyddio llai o ddata personol, gallwch ddewis rhoi llai o ddata i ni.

7.3.1 **Sut i atal data personol.** Gallwch reoli'r holl ffynonellau sydd gennym am eich data personol. Gallwch chi wneud y canlynol:

(i) darparu llai o ddata personol nag y gofynnir amdanynt;

(ii) cyfyngu ar pa ddata personol rydych yn eu rhoi i Gyrff Dyfarnu'r CGC; neu

(iii) rhoi cyfarwyddyd i'r ganolfan atal eitemau o ddata personol gan Gyrff Dyfarnu'r CGC.

7.3.2 **Effaith atal data personol am ymgeiswyr** Yn dibynnu ar ba eitem(au) o ddata personol rydych yn ei (eu) atal, os oes gan ganolfan a Chyrff Dyfarnu'r CGC lai o ddata personol am yr ymgeisydd na'r hyn sy'n ofynnol, gallai olygu na allai'r ganolfan gofrestru'r ymgeisydd ar gyfer yr arholiad(au); ni ellir asesu'r arholiad(au); ni ellir dyfarnu'r arholiad(au); effeithir ar ganlyniad unrhyw apêl.

7.3.3 **Effaith atal data personol amdanoch chi** Os nad chi yw'r ymgeisydd a bod gan ganolfan a/neu Gorff Dyfarnu'r CGC lai o ddata personol amdanoch na'r hyn sy'n ofynnol, gallai olygu na allai'r ganolfan a/neu Gyrff Dyfarnu'r CGC gysylltu â chi, a gallai olygu na ellir cofrestru'r ymgeisydd ar gyfer unrhyw arholiad(au), neu na ellir rhoi gwybod i chi am ganlyniadau'r arholiadau, dyfarniad arholiadau, tystysgrifau, neu wybodaeth am ymchwiliadau neu apeliadau.

## 8 Y ganolfan yn defnyddio ac yn datgelu eich data personol

8.1 O fewn y Cwmpas, cyn belled â bod eich data personol ar gael i'r ganolfan, bydd y ganolfan yn ei defnyddio ar gyfer y pwrpasau canlynol, oni bai y bydd ei angen fel arall o ganlyniad i chi'n arfer eich hawliau diogelu data. Gallai'r ganolfan ddefnyddio unrhyw beth o'ch data personol ar gyfer unrhyw un o'r pwrpasau canlynol, p'un ag y derbyniodd y ganolfan nhw'n uniongyrchol gennych chi neu o ffynonellau y cyfeirir atynt yn yr Hysbysiad(au) Preifatrwydd a ddarparwyd i chi gan y ganolfan:

| Pwrpas | Sail gyfreithiol |
|---|---|
| (1) Cynnal arholiadau a gwneud gwaith gweinyddol yn ymwneud ag arholiadau, yn cynnwys cofrestru'r ymgeisydd ar gyfer arholiad(au), monitro cydraddoldeb, gwneud Trefniadau Mynediad, storio a chludo sgriptiau arholiad, gohebu ac ymdrin â Chyrff Dyfarnu'r CGC, derbyn canlyniadau arholiadau a chymwysterau a ddyfarnwyd gan Gyrff Dyfarnu'r CGC, ac ar gyfer unrhyw ymchwiliadau neu apeliadau sy'n ymwneud ag arholiadau neu dystysgrifau. | *Yn achos canolfannau a Chyrff Dyfarnu'r CGC nad ydynt yn gyrff cyhoeddus:* Buddiant dilys y ganolfan, a diddordebau dilys Cyrff Dyfarnu'r CGC, wrth gynnal a gweinyddu arholiadau.<br><br>*Yn achos canolfannau sy'n "gyrff cyhoeddus" yn ôl diffiniad y Ddeddf Diogelu Data 2018 (e.e. Ysgolion a gynhelir yn y DU, academïau a chorfforaethau addysg bellach), ac unrhyw Gyrff Dyfarnu'r CGC sy'n gyrff cyhoeddus:* Cyflawni tasg er budd y cyhoedd, oni bai bod yr ymgeisydd yn arfer ei hawl i wrthwynebu.<br><br>*Yn achos defnyddio data categori arbennig mewn perthynas â Threfniadau Mynediad:* cydsyniad |

| | |
|---|---|
| | penodol.<br><br>*Yn achos data categori arbennig yn ymwneud â'ch hil, ethnigrwydd, gwleidyddiaeth, credoau neu gyfeiriadedd rhywiol:* Am resymau o ddiddordeb cyhoeddus sylweddol ar sail cyfraith y DU ar gydraddoldeb cyfle neu driniaeth. |
| (2) Datgelu canlyniadau'r arholiad(au) a chymwysterau a ddyfarnwyd gan Gyrff Dyfarnu'r CGC i gorff dyfarnu'r ganolfan, swyddogaethau rheoli canolog a swyddogaethau eraill o fewn yr Awdurdod Addysg Lleol, ymddiriedolaeth aml-academi, consortiwm neu grŵp y mae'r ganolfan yn perthyn iddo, awdurdodau lleol perthnasol, rheoleiddwyr a (fel sy'n briodol) Gwasanaeth Derbyn Prifysgolion a Cholegau a darparwyr addysg uwch. | *Yn achos canolfannau a Chyrff Dyfarnu'r CGC nad ydynt yn gyrff cyhoeddus:* Buddiant dilys y ganolfan, a buddiannau dilys Cyrff Dyfarnu'r CGC, wrth weinyddu arholiadau gan y ganolfan a'i sefydliadau rheoli cysylltiedig, a gan gyrff dyfarnu sydd â dyletswyddau, swyddogaethau neu bwerau sy'n ymwneud ag arholiadau; a buddiannau dilys y ganolfan wrth gefnogi gweithrediad systemau clirio addysg uwch.<br><br>*Yn achos canolfannau sy'n "gyrff cyhoeddus" yn ôl diffiniad y Ddeddf Diogelu Data 2018 (e.e. Ysgolion a gynhelir yn y DU, academïau a chorfforaethau addysg bellach), ac unrhyw Gyrff Dyfarnu'r CGC sy'n derbyn ac sy'n gyrff cyhoeddus:* Cyflawni tasg er budd y cyhoedd, oni bai bod yr ymgeisydd yn arfer ei hawl i wrthwynebu. |
| (3) Datgelu canlyniadau'r arholiad(au) a'r cymwysterau a ddyfarnwyd gan Gyrff Dyfarnu'r CGC i gyfryngau newyddiadurol, er mwyn eu cyhoeddi yn y cyfryngau. | *Yn achos canolfannau a Chyrff Dyfarnu'r CGC nad ydynt yn gyrff cyhoeddus:* Buddiant dilys y ganolfan, a buddiannau dilys Cyrff Dyfarnu'r CGC ac unrhyw drydydd parti sy'n cyhoeddi neu'n derbyn y canlyniad(au) a'r cymwysterau a ddyfernir, yng nghanlyniad(au) arholiadau a chymwysterau a ddyfernir.<br><br>*Yn achos canolfannau sy'n "gyrff cyhoeddus" yn ôl diffiniad y Ddeddf Diogelu Data 2018 (e.e. Ysgolion a gynhelir yn y DU, academïau a chorfforaethau addysg bellach), a Chyrff Dyfarnu'r CGC sy'n gyrff cyhoeddus:* Cyflawni tasg er budd y cyhoedd, oni bai bod yr ymgeisydd yn arfer ei hawl i wrthwynebu. |
| (4) Darparu gwybodaeth y gofynnwch amdani gan y ganolfan o ran arholiadau, gan ddefnyddio unrhyw fanylion cyswllt sydd gan y ganolfan er mwyn cysylltu â chi, ac ymdrin â Threfniadau Mynediad a/neu ystyriaeth arbennig. | *Yn achos canolfannau a Chyrff Dyfarnu'r CGC nad ydynt yn gyrff cyhoeddus:* Buddiant dilys y ganolfan mewn ymateb i'ch ceisiadau ac ymholiadau, e.e. drwy e-bost, ffôn, post neu gyfryngau cymdeithasol (neu eich dewis chi, os ydych yn rhoi gwybod i'ch canolfan am eich dewisiadau), a buddiant dilys Cyrff Dyfarnu'r CGC yn cefnogi'r ganolfan i'w galluogi i ymateb.<br><br>*Yn achos canolfannau sy'n "gyrff cyhoeddus" yn ôl diffiniad y Ddeddf Diogelu Data 2018 (e.e. Ysgolion a gynhelir yn y DU, academïau a chorfforaethau addysg bellach), a Chyrff Dyfarnu'r CGC sy'n gyrff cyhoeddus:* Cyflawni tasg er budd y cyhoedd, oni bai bod yr ymgeisydd yn arfer ei hawl i wrthwynebu.<br><br>*Yn achos defnyddio data categori arbennig mewn perthynas â Threfniadau Mynediad:* cydsyniad penodol. |
| (5) Gohebu â chi ar ysgogiad unrhyw un | *Yn achos canolfannau a Chyrff Dyfarnu'r CGC nad* |

| | |
|---|---|
| o Gyrff Dyfarnu'r CGC, defnyddio unrhyw fanylion cyswllt sydd gennym er mwyn cysylltu â chi, yn ymwneud ag arholiadau, yn cynnwys yn rhan o ymdrin â Threfniadau Mynediad a/neu ystyriaeth arbennig. | *ydynt yn gyrff cyhoeddus:* Buddiant dilys y ganolfan, a buddiannau dilys y Cyrff Dyfarnu CGC sy'n derbyn, yng ngweinyddiaeth yr arholiadau.<br><br>*Yn achos canolfannau sy'n "gyrff cyhoeddus" yn ôl diffiniad y Ddeddf Diogelu Data 2018 (e.e. Ysgolion a gynhelir yn y DU, academïau a chorfforaethau addysg bellach), ac unrhyw Gorff Dyfarnu'r CGC sy'n derbyn ac sy'n gyrff cyhoeddus:* Cyflawni tasg er budd y cyhoedd, oni bai bod yr ymgeisydd yn arfer ei hawl i wrthwynebu.<br><br>*Yn achos defnyddio data categori arbennig mewn perthynas â Threfniadau Mynediad:* cydsyniad penodol. |
| (6) Galluogi'r ganolfan a Chyrff Dyfarnu'r CGC i ddarganfod a chymryd camau gweithredu yn erbyn twyllo, twyll *(fraud)* ac afreoleidd-dra arall yn ymwneud ag arholiadau. | *Yn achos canolfannau a Chyrff Dyfarnu'r CGC nad ydynt yn gyrff cyhoeddus:* Buddiant dilys y ganolfan, a buddiannau dilys Cyrff Dyfarnu'r CGC, yn ceisio atal a mynd i'r afael â thwyllo, twyll ac afreoleidd-dra arall yn ymwneud ag arholiadau.<br><br>*Yn achos canolfannau sy'n "gyrff cyhoeddus" yn ôl diffiniad y Ddeddf Diogelu Data 2018 (e.e. Ysgolion a gynhelir yn y DU, academïau a chorfforaethau addysg bellach), ac unrhyw Gyrff Dyfarnu'r CGC sy'n gyrff cyhoeddus:* Cyflawni tasg er budd y cyhoedd, oni bai bod yr ymgeisydd yn arfer ei hawl i wrthwynebu.<br><br>*Yn achos defnyddio data categori arbennig o ran cymryd camau gweithredu yn erbyn twyllo, twyll neu afreoleidd-dra arall:* Am resymau o fudd cyhoeddus sylweddol ar sail cyfraith y DU ar atal neu ddarganfod gweithredoedd anghyfreithlon, diogelu'r cyhoedd rhag anonestrwydd a thebyg, ac atal twyll. |
| (7) Er mwyn i'r ganolfan gymryd camau gweithredu cyfreithiol neu weinyddol, datrys anghydfodau'n ymwneud â Chi, ac i ymdrin â rheoleiddwyr. | *Yn achos canolfannau a Chyrff Dyfarnu'r CGC nad ydynt yn gyrff cyhoeddus:* Buddiant dilys y ganolfan mewn gorfodi unrhyw gontract rhwng y ganolfan a chi, ac mewn gorfodi'r safonau a pholisïau a gynhaliwyd gan y ganolfan (neu'r Awdurdod Addysg Lleol, ymddiriedolaeth aml-academi, consortiwm neu grŵp mae'n perthyn iddo) a/neu gan Gyrff Dyfarnu'r CGC yn ymwneud ag arholiadau; a buddiannau dilys Cyrff Dyfarnu'r CGC mewn datrys unrhyw anghydfodau sy'n ymwneud â chi ac yn ymdrin â'u rheoleiddwyr.<br><br>*Yn achos canolfannau sy'n "gyrff cyhoeddus" yn ôl diffiniad y Ddeddf Diogelu Data 2018 (e.e. Ysgolion a gynhelir yn y DU, academïau a chorfforaethau addysg bellach), ac unrhyw Gyrff Dyfarnu'r CGC sy'n gyrff cyhoeddus:* Cyflawni tasg er budd y cyhoedd, oni bai bod yr ymgeisydd yn arfer ei hawl i wrthwynebu.<br><br>*Yn achos data categori arbennig:* fel y bo angen i'r ganolfan neu Gyrff Dyfarnu'r CGC sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol yn ymwneud ag arholiadau. |

| | |
|---|---|
| (8) Ddefnyddio data personol pobl eraill rydych chi'n eu darparu i'r ganolfan. | *Yn achos canolfannau a Chyrff Dyfarnu'r CGC nad ydynt yn gyrff cyhoeddus:* Buddiannau dilys y ganolfan a Chyrff Dyfarnu'r CGC perthnasol mewn cysylltu neu fel arall ymdrin â phobl yr ydych yn sôn wrth y ganolfan amdanynt, mewn perthynas ag arholiadau.<br><br>*Yn achos canolfannau sy'n "gyrff cyhoeddus" yn ôl diffiniad y Ddeddf Diogelu Data 2018 (e.e. Ysgolion a gynhelir yn y DU, academïau a chorfforaethau addysg bellach) a Chyrff Dyfarnu'r CGC sy'n gyrff dyfarnu:* Cyflawni tasg a gynhaliwyd er budd y cyhoedd, oni bai bod yr ymgeisydd yn arfer ei hawl i wrthwynebu.<br><br>**Mewn unrhyw achos, gofynnwn eich bod yn sicrhau eich bod wedi cael caniatâd pobl eraill i rannu eu data personol gyda ni, ac eu bod yn ymwybodol eich bod wedi eu rhannu nhw gyda ni i'w defnyddio fel sy'n cael ei ddisgrifio yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn.** |

8.2 Gallai'r ganolfan ddatgelu eich data personol i unrhyw drydydd parti arall os oes ganddi sail gyfreithiol i wneud hynny (neu'n gallu dibynnu ar unrhyw eithriad, megis un o dan ddeddfwriaeth diogelu data), neu o dan rwymedigaeth gyfreithiol i'w datgelu neu eu rhannu gyda nhw, neu er mwyn sefydlu, arfer neu amddiffyn eu hawliau cyfreithiol, neu i ddiogelu hawliau, eiddo neu ddiogelwch y ganolfan, neu at bwrpasau atal neu amddiffyn trosedd (neu ddal neu hwyluso'r broses o erlyn troseddau). Mae hyn yn cynnwys cyfnewid gwybodaeth â Chyrff Dyfarnu'r CGC a sefydliadau eraill mewn perthynas â thwyllo, twyll neu afreoleidd-dra arall yn ymwneud ag arholiadau.

## 9 Cyrff Dyfarnu'r CGC yn defnyddio a datgelu eich data personol

9.1 O fewn y Cwmpas, cyn belled â bod eich data personol ar gael i Gyrff Dyfarnu'r CGC, gallan nhw eu defnyddio ar gyfer unrhyw un o'r pwrpasau canlynol, oni bai y bydd eu hangen fel arall oherwydd eich bod wedi arfer eich hawliau diogelu data. Gall aelodau Cyrff Dyfarnu'r CGC ddefnyddio unrhyw rai o'ch data personol ar gyfer unrhyw un o'r pwrpasau canlynol, p'un a ydyn nhw wedi'u cael yn uniongyrchol gennych chi neu o ffynonellau y cyfeirir atynt uchod yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn:

| Pwrpas | Sail gyfreithiol |
|---|---|
| (1) Cynnal arholiadau a gwneud gwaith gweinyddol yn ymwneud ag arholiadau, yn cynnwys cofrestru'r ymgeisydd ar gyfer arholiad(au), monitro cydraddoldeb, penderfynu ar Drefniadau Mynediad a/neu ystyriaeth arbennig, storio a chludo sgriptiau arholiad, gohebu ac ymdrin â'r ganolfan, marcio a chymedroli arholiadau, penderfynu ar ganlyniadau arholiadau, dyfarnu cymwysterau, a chynnal unrhyw ymchwiliadau neu apeliadau sy'n ymwneud ag apeliadau sy'n ymwneud ag arholiadau neu dystysgrifau. | *Yn achos Cyrff Dyfarnu'r CGC nad ydynt yn gyrff cyhoeddus:* Buddiannau dilys Cyrff Dyfarnu'r CGC wrth gynnal a gweinyddu arholiadau.<br><br>*Yn achos unrhyw Gorff Dyfarnu'r CGC sy'n gorff cyhoeddus:* Cyflawni tasg er budd y cyhoedd, oni bai bod yr ymgeisydd yn arfer ei hawl i wrthwynebu.<br><br>*Yn achos defnyddio data categori arbennig mewn perthynas â Threfniadau Mynediad:* y ganolfan wedi cael eich cydsyniad penodol.<br><br>*Yn achos data categori arbennig yn ymwneud â'ch hil, ethnigrwydd, gwleidyddiaeth, credoau neu gyfeiriadedd rhywiol:* Am resymau o ddiddordeb cyhoeddus sylweddol ar sail cyfraith |

| | |
|---|---|
| | y DU ar gydraddoldeb cyfle neu driniaeth. |
| (2) Datgelu canlyniadau'r arholiad(au) a chymwysterau a ddyfarnwyd gan Gyrff Dyfarnu'r CGC i'r ganolfan, i'r awdurdod lleol perthnasol, cyrff cyhoeddus (yn cynnwys Adran Addysg y DU, Asiantaeth Cyllido Dysgu'r DU, Asiantaeth Cyllido Sgiliau'r DU, Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Cofnodion Dysgu'r DU, Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch y DU a rheoleiddwyr y DU yn cynnwys Ofsted (neu gyrff cyfatebol o'r uchod yn eich awdurdodaeth), ac i'r Gwasanaethau Derbyn Prifysgolion a Cholegau a darparwyr addysg uwch. | *Yn achos Cyrff Dyfarnu'r CGC nad ydynt yn gyrff cyhoeddus:* Eu buddiannau dilys wrth weinyddu arholiadau gan y ganolfan a'r cyrff cyhoeddus perthnasol a'r rheoleiddwyr, ac wrth gefnogi gweithrediad systemau clirio addysg uwch.<br><br>*Yn achos Cyrff Dyfarnu'r CGC sy'n gyrff cyhoeddus:* Cyflawni tasg er budd y cyhoedd, oni bai bod yr ymgeisydd yn arfer ei hawl i wrthwynebu.<br><br>*Yn achos y cyrff cyhoeddus sy'n derbyn:* Y budd i'r cyhoedd bod y cyrff cyhoeddus hynny yn gallu cyflawni eu dyletswyddau ac yn arfer eu pwerau mewn perthynas ag arholiadau a chymwysterau.<br><br>*Yn achos UCAS a darparwyr addysg uwch:* Eu buddiannau dilys, a budd y cyhoedd, wrth weinyddu systemau clirio addysg uwch. |
| (3) Datgelu canlyniadau'r arholiad(au) a'r cymwysterau a ddyfarnwyd gan Gyrff Dyfarnu'r CGC i gyfryngau newyddiadurol, er mwyn eu cyhoeddi yn y cyfryngau. | *Yn achos Cyrff Dyfarnu'r CGC nad ydynt yn gyrff cyhoeddus:* Buddiannau dilys Cyrff Dyfarnu'r CGC ac unrhyw drydydd parti sy'n cyhoeddi neu'n derbyn y canlyniad(au) a'r cymwysterau a ddyfernir, yn y canlyniad(au) a chymwysterau a ddyfernir.<br><br>*Yn achos Cyrff Dyfarnu'r CGC sy'n gyrff cyhoeddus:* Cyflawni tasg er budd y cyhoedd, oni bai bod yr ymgeisydd yn arfer ei hawl i wrthwynebu. |
| (4) Darparu gwybodaeth y gofynnwch amdani gan Gyrff Dyfarnu'r CGC, defnyddio unrhyw fanylion cyswllt sydd ganddynt er mwyn cysylltu â chi, yn cynnwys yn rhan o ymdrin â Threfniadau Mynediad a/neu ystyriaeth arbennig. | *Yn achos Cyrff Dyfarnu'r CGC nad ydynt yn gyrff cyhoeddus:* Ein buddiant dilys mewn ymateb i'ch ymatebion ac ymholiadau, e.e. drwy e-bost, ffôn, post neu gyfryngau cymdeithasol (neu eich dewis chi, os ydych yn rhoi gwybod i ni am eich dewisiadau).<br><br>*Yn achos unrhyw Gorff Dyfarnu'r CGC sy'n gorff cyhoeddus:* Cyflawni tasg er budd y cyhoedd, oni bai bod yr ymgeisydd yn arfer ei hawl i wrthwynebu.<br><br>*Yn achos defnyddio data categori arbennig mewn perthynas â Threfniadau Mynediad*: y ganolfan wedi cael eich cydsyniad. |
| (5) Gohebu ac ymdrin â'r ganolfan mewn perthynas ag arholiadau, gan gynnwys derbyn eich data personol gan y ganolfan, yn cynnwys yn rhan o ymdrin â Threfniadau Mynediad a/neu ystyriaeth arbennig. | *Yn achos Cyrff Dyfarnu'r CGC nad ydynt yn gyrff cyhoeddus:* Buddiannau dilys Cyrff Dyfarnu'r CGC wrth weinyddu'r arholiadau.<br><br>*Yn achos unrhyw Gorff Dyfarnu'r CGC sy'n gorff cyhoeddus:* Cyflawni tasg er budd y cyhoedd, oni bai bod yr ymgeisydd yn arfer ei hawl i wrthwynebu.<br><br>*Yn achos defnyddio data categori arbennig* |

| | |
|---|---|
| | *mewn perthynas â Threfniadau Mynediad:* |
| (6) Gohebu â chi ar ysgogiad Cyrff Dyfarnu'r CGC, gan ddefnyddio unrhyw fanylion cyswllt sydd ganddyn nhw er mwyn cysylltu â chi, neu ohebu â'r ganolfan, mewn perthynas â'r arholiadau, yn cynnwys yn rhan o ymdrin â Threfniadau Mynediad a/neu ystyriaeth arbennig. | *Yn achos Cyrff Dyfarnu'r CGC nad ydynt yn gyrff cyhoeddus:* Buddiannau dilys Cyrff Dyfarnu'r CGC wrth weinyddu'r arholiadau.<br><br>*Yn achos Cyrff Dyfarnu'r CGC sy'n gyrff cyhoeddus:* Cyflawni tasg er budd y cyhoedd, oni bai bod yr ymgeisydd yn arfer ei hawl i wrthwynebu.<br><br>*Yn achos defnyddio data categori arbennig mewn perthynas â Threfniadau Mynediad*: y ganolfan wedi cael eich cydsyniad. |
| (7) Er mwyn galluogi Cyrff Dyfarnu'r CGC i ddarganfod a chymryd camau gweithredu yn erbyn twyllo, twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall yn ymwneud ag arholiadau. | *Yn achos Cyrff Dyfarnu'r CGC nad ydynt yn gyrff cyhoeddus:* Buddiannau dilys Cyrff Dyfarnu'r CGC wrth geisio atal a mynd i'r afael â thwyllo, twyll ac afreoleidd-dra arall yn ymwneud ag arholiadau.<br><br>*Yn achos Cyrff Dyfarnu'r CGC sy'n gyrff cyhoeddus:* Cyflawni tasg er budd y cyhoedd, oni bai bod yr ymgeisydd yn arfer ei hawl i wrthwynebu.<br><br>*Yn achos defnyddio data categori arbennig mewn perthynas â chymryd camau gweithredu yn erbyn twyllo, twyll neu unrhyw afreoleidd-dra arall:* Am resymau o ddiddordeb cyhoeddus sylweddol ar sail cyfraith y DU ar atal neu ddarganfod gweithredoedd anghyfreithlon, diogelu'r y cyhoedd rhag anonestrwydd a thebyg, ac atal twyll. |
| (8) Er mwyn i Gyrff Dyfarnu'r CGC gymryd camau gweithredu cyfreithiol neu weinyddol, datrys anghydfodau'n eich cynnwys chi, ac i ymdrin â rheoleiddwyr. | *Yn achos Cyrff Dyfarnu'r CGC nad ydynt yn gyrff cyhoeddus:* Buddiannau dilys Cyrff Dyfarnu'r CGC wrth orfodi'r safonau a'r polisïau sy'n cael eu cynnal gan Gyrff Dyfarnu'r CGC mewn perthynas ag arholiadau; a'u buddiannau dilys wrth ddatrys unrhyw anghydfodau sy'n ymwneud â chi ac yn ymdrin â'u rheoleiddwyr.<br><br>*Yn achos Cyrff Dyfarnu'r CGC sy'n gyrff cyhoeddus:* Cyflawni tasg er budd y cyhoedd, oni bai bod yr ymgeisydd yn arfer ei hawl i wrthwynebu.<br><br>*Yn achos data categori arbennig:* fel y bo angen i Gyrff Dyfarnu'r CGC i sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol yn ymwneud ag arholiadau. |

9.2 Ar gyfer arholiad penodol, gallai'r aelod perthnasol o Gorff Dyfarnu'r CGC rannu eich data personol gydag unrhyw un o Gyrff Dyfarnu'r CGC eraill ar gyfer unrhyw un o'r pwrpasau uchod. Er enghraifft, gall Cyrff Dyfarnu'r CGC gyfuno eu hadnoddau dynol, TG (yn cynnwys cyfleusterau storio) neu adnoddau eraill. Gall Cyrff Dyfarnu'r CGC hefyd gadw cofnodion canolog a'u rhannu, gan gynnwys cofnodion o gymwysterau.

9.3 Gall Cyrff Dyfarnu'r CGC ddatgelu eich data personol i unrhyw drydydd parti arall os oes ganddynt seiliau cyfreithiol i wneud hynny, neu os ydynt o dan rwymedigaeth gyfreithiol i'w

datgelu neu eu rhannu â nhw, neu er mwyn sefydlu, arfer neu amddiffyn eu hawliau cyfreithiol, neu at bwrpasau atal neu amddiffyn trosedd (neu ddal neu hwyluso'r broses o erlyn troseddau). Mae hyn yn cynnwys cyfnewid gwybodaeth ar draws Gyrff Dyfarnu'r CGC, a gyda sefydliadau eraill, mewn perthynas â thwyllo, twyll neu unrhyw afreoleidd-dra arall yn ymwneud ag arholiadau.

## 10 <u>Ffyrdd eraill o ddatgelu eich data personol</u>

10.1 O fewn y Cwmpas, cyn belled ag y bo ganddynt fynediad at eich data personol, gallai'r ganolfan a Chyrff Dyfarnu'r CGC benodi unrhyw drydydd partïon i brosesu eich data personol ar eu rhan ac yn ôl eu cyfarwydd. Gallai'r rhain gynnwys y canlynol:

10.1.1 Arholwyr sy'n marcio ac yn cymedroli sgriptiau arholiad.

10.1.2 Argraffwyr a chyflenwyr eraill sy'n ymwneud â darparu arholiadau a chynhyrchu tystysgrifau.

10.1.3 Darparwyr gwasanaethau TG sy'n cael eu defnyddio i ddarparu, cynnal, gwella, rheoli, optimeiddio neu drwsio'r cyfleusterau TG y maent yn eu defnyddio neu'n dibynnu arnynt, yn cynnwys dyfeisiau cyfrifiaduro, rhwydweithiau cyfrifiadurol, cysylltedd, telegyfathrebu, a meddalwedd.

10.1.4 Darparwyr gwasanaethau proffesiynol, megis cyfrifwyr, archwilwyr a broceriaid yswiriant.

10.1.5 Yswirwyr (gan gynnwys eich yswirwyr chi) a'u hasiantau.

10.1.6 Staff meddygol a chynghorwyr cyfreithiol (yn cynnwys eich staff meddygol a chynghorwyr cyfreithiol).

10.1.7 Unrhyw drydydd parti sy'n sefydliad corfforaethol, os bydd y ganolfan neu unrhyw Gorff Dyfarnu'r CGC yn mynd trwy drawsnewidiad busnes, megis cydsoddiad, yn cael ei brynu gan berson neu endid corfforaethol arall, neu'n gwerthu cyfran o'u hasedau.

10.2 Mae'n bosibl y bydd Asiantaeth Cyllido Sgiliau'r DU yn rhannu ULN a Chofnod Dysgu Personol ymgeisydd â sefydliadau eraill yn ymwneud ag addysg, fel gwasanaeth gyrfaoedd, ysgol neu goleg ymgeisydd, Adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus â chyfrifoldeb dros addysg. Mae manylion pellach ynglŷn â sut mae gwybodaeth yn cael ei rhannu a'i phrosesu i'w cael yn: http://www.learningrecordsservice.org.uk/.

## 11 <u>Am faint o amser y bydd eich data personol yn cael eu cadw</u>

11.1 Bydd Cyrff Dyfarnu'r CGC yn cadw'r data personol canlynol amdanoch chi am gyfnod amhenodol, ac am o leiaf bedwar deg (40) o flynyddoedd. Yn ychwanegol, gall rhai o Gyrff Dyfarnu'r CGC ddal rhywfaint o ddata personol (megis y canlynol) fel cofnod cyfoes o arholiadau rydych wedi'u sefyll ac, oherwydd eithriad y Ddeddfwriaeth Diogelu Data, nid oes rhaid eu newid os (er enghraifft) os ydych yn newid eich enw neu rywedd ar ôl hynny:

11.1.1 enw'r Ymgeisydd, rhywedd a chyfeiriad a gyflwynwyd i Gyrff Dyfarnu'r CGC pan gofrestrwyd yr ymgeisydd ar gyfer yr Arholiad(au);

11.1.2 canlyniadau'r arholiad(au); a

11.1.3 cymhwyster/cymwysterau a ddyfarnwyd i'r ymgeisydd gan Gyrff Dyfarnu'r CGC ac unrhyw wybodaeth am raddau.

11.2 Bydd bob Corff Dyfarnu'r CGC yn cadw eich data personol yn unol â'u polisïau cadw cofnodion eu hunain, a'u polisïau eu hunain ar welliannau i dystysgrifau arholiadau neu gofnodion cyfoes. Gallwch wybod mwy am eu polisïau drwy gysylltu â Chyrff Dyfarnu'r CGC gan ddefnyddio'r manylion cyswllt y mae gwybodaeth amdanynt uchod, dan y pennawd "Eich rheolydd data".

## 12 Sut y gellir cysylltu â chi

12.1 Gall Cyrff Dyfarnu'r CGC gysylltu â chi'n uniongyrchol drwy'r post neu e-bost mewn perthynas ag arholiadau. Ni fyddan nhw'n cyhoeddi unrhyw farchnata yn uniongyrchol i chi.

## 13 Trosglwyddo eich data personol dramor

13.1 Y Comisiwn Ewropeaidd sydd i benderfynu, at bwrpasau deddfwriaeth diogelu data, a oes gan wladwriaethau y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd fesurau diogelu "digonol" ar gyfer data personol. **Efallai nad yw'r cyfreithiau yn yr awdurdodaeth, lle rydych chi a/neu'r ganolfan, yn darparu mesurau diogelu digonol.**

13.2 Gall Cyrff Dyfarnu'r CGC wneud unrhyw drosglwyddiadau angenrheidiol a chyfreithlon o'ch data personol i'r lleoliadau tramor hyn mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft os oes ganddynt eich cydsyniad penodol. Os ydyn nhw'n gofyn am eich cydsyniad penodol, neu os yw'r ganolfan yn gofyn i chi ar eu rhan am eich cydsyniad penodol, **efallai na fydd Cyrff Dyfarnu'r CGC yn gallu gwneud unrhyw drosglwyddiadau angenrheidiol o'ch data personol i'r Ganolfan neu i chi oni bai bod eich cydsyniad ganddynt.**

13.3 Gallai'r ganolfan fod mewn lleoliad yn y Deyrnas Unedig, neu y tu allan, a gallai fod yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, neu y tu allan.

13.4 Bydd data personol a ddatgelir gan y ganolfan i Gyrff Dyfarnu'r CGC yn cael eu trosglwyddo i'r Deyrnas Unedig (lle mae Cyrff Dyfarnu'r CGC yn gweithredu). Bydd data personol a ddatgelir gan Gyrff Dyfarnu'r CGC i chi neu'r ganolfan (neu arholwr) yn cael eu trosglwyddo o'r Deyrnas Unedig i'r awdurdodaeth lle rydych chi neu'r ganolfan. Gellir lleoli arholwyr a darparwyr gwasanaethau eraill (megis argraffu tystysgrifau) yn yr awdurdodaeth lle rydych chi neu'r ganolfan, neu awdurdodaeth arall.

13.5 Os bydd Corff Dyfarnu'r CGC yn trosglwyddo eich data personol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd heb gael eich cydsyniad yn gyntaf, bydd yn sicrhau bod ganddo fesurau diogelu digonol.

## 14 Eich Hawliau

14.1 Os ydych chi'n byw mewn lleoliad lle mae'r ddeddfwriaeth gwarchod data mewn grym, bydd y canlynol yn berthnasol. Yn yr adran hon, mae "ni" ac "ein" yn golygu'r ganolfan neu Gyrff Dyfarnu'r CGC:

14.1.1 Mae gennych yr hawl i weld y data personol sydd gennym amdanoch chi. Gallwch arfer eich hawl yn unol â'r deddfwriaeth diogelu data. Gallwch gyflwyno cais i weld y data ar unrhyw adeg. Er mwyn gwneud hyn, cysylltwch â'r ganolfan neu Gyrff Dyfarnu'r CGC (os yn berthnasol) gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a nodir uchod yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn.

14.1.2 Os ydym yn dibynnu ar gydsyniad fel sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich data personol, mae'r hawl gennych i dynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg. Gallwch arfer yr hawl drwy gysylltu â'r ganolfan (i dynnu'ch cydsyniad yn ôl gan y ganolfan) neu drwy gysylltu ag unrhyw Gorff Dyfarnu'r CGC (i dynnu eich cydsyniad yn ôl gan y Corff Dyfarnu CGC hwnnw).

14.1.3 Os ydych yn sylwi bod unrhyw wallau yn eich data personol yr ydym yn eu prosesu, mae gennych yr hawl i ofyn i ni gywiro'r gwallau, oni bai bod eithriad. Byddwn

naill'n gwneud hynny (o fewn mis) neu'n esbonio pam ein bod wedi penderfynu peidio â gwneud hynny.

14.1.4 I'r graddau (a) nad oes angen i ni ddefnyddio eich data personol mwyach at bwrpasau a ddisgrifir yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn, neu (b) ein bod yn dibynnu ar eich cydsyniad sydd wedi'i dynnu'n ôl gennych, neu (c) eich bod yn gwrthwynebu ein buddiannau dilys ar gyfer defnyddio eich data personol ac nad oes unrhyw eithriad yn gymwys sy'n ein caniatáu i barhau i'w defnyddio, neu (ch) sefydlwyd nad oedd yr hawl gyfreithiol gennym i brosesu eich data personol, neu (d) bod y gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddileu eich data personol, gallwch ofyn i ni ddileu eich data personol. Os ydym yn dileu eich data personol, bydd hyn yn effeithio ar ein gallu i weinyddu arholiadau rydych chi'n eu sefyll, fel y disgrifir uchod.

14.1.5 **Mae gennych yr hawl i wrthwynebu'r ffaith ein bod yn prosesu eich data personol i'r graddau (a) ein bod yn defnyddio'r data personol ar sail ein buddiannau dilys ac nad oes unrhyw eithriad yn gymwys sy'n ein caniatáu i barhau i'w defnyddio, neu (b) ein bod yn eu defnyddio at bwrpasau ymchwil gwyddonol neu hanesyddol neu bwrpasau ystadegol ac nad oes unrhyw eithriad yn gymwys sy'n ein caniatáu i barhau i'w defnyddio.**

14.1.6 Mae gennych yr hawl i ofyn i ni gyfyngu ar brosesu eich data personol i'r graddau (a) eich bod wedi cwestiynu cywirdeb y data personol a'r ffaith ein bod yn parhau i wirio eu cywirdeb, (b) sefydlwyd nad oedd gennym yr hawl gyfreithiol i brosesu'r data personol, (c) nad oes angen i ni ddefnyddio'ch data personol mwyach at bwrpasau hawliadau cyfreithiol, neu (ch) eich bod wedi arfer eich hawl i wrthwynebu i'r ffaith ein bod yn defnyddio eich data personol ac nad oes unrhyw eithriad yn gymwys sy'n ein caniatáu i barhau i'w defnyddio.

14.1.7 Mae Cyrff Dyfarnu'r CGC yn defnyddio dulliau penderfynu awtomataidd i benderfynu ar geisiadau ar-lein ar gyfer Trefniadau Mynediad. Mae gennych yr hawl i ofyn i Gyrff Dyfarnu'r CGC roi copi i chi, neu i Reolydd Data arall ar eich rhan, o unrhyw ddata personol amdanoch chi y maen nhw'n eu prosesu gan ddefnyddio dulliau awtomataidd yn seiliedig ar eich cydsyniad chi, fel eich bod yn gallu ailddefnyddio data personol o'r fath at eich pwrpasau eich hun ar wasanaethau eraill.

14.1.8 Mae gennych yr hawl i beidio â bod yn rhan o ddulliau penderfynu awtomataidd sy'n effeithio'n sylweddol arnoch, oni bai bod gan Gyrff Dyfarnu'r CGC yr awdurdod cyfreithiol i ddefnyddio'r data personol i wneud penderfyniadau awtomataidd, neu fod ganddynt eich cydsyniad penodol.

14.1.9 Mae gennych yr hawl i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth (http://www.ico.gov.uk/) os oes gennych unrhyw bryderon o ran y ffordd yr ydym ni neu'r ganolfan yn trin eich data personol.

14.2 Os hoffech chi arfer unrhyw un o'r hawliau uchod, yn cynnwys tynnu eich cydsyniad yn ôl (lle mae prosesu eich data personol gennym yn dibynnu ar gael eich cydsyniad), cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a nodir uchod yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn.

## 15 Sut rydym ni'n diogelu eich gwybodaeth bersonol

15.1 Mae'r ganolfan wedi cymryd camau rhesymol i roi mesurau diogelwch priodol ar waith er mwyn diogelu eich data personol pan fyddant yn cael eu prosesu gan y ganolfan neu ar ran y ganolfan. Mae Cyrff Dyfarnu'r CGC wedi gwneud yr un fath.

15.2 Nid yw Cyrff Dyfarnu'r CGC yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am bolisïau unrhyw drydydd parti sy'n rheolyddion data, megis awdurdodau cyhoeddus a chanolfannau (ac eithrio i'r graddau bod y canolfannau yn ymddwyn ar ein rhan). Gwiriwch Hysbysiadau Preifatrwydd unrhyw drydydd parti cyn i chi gyflwyno unrhyw ddata personol iddyn nhw, neu ddata personol y gallant eu defnyddio.

## 16 <u>Newidiadau i'r Hysbysiad Preifatrwydd</u>

16.1 Rydym yn cadw'r hawl i wneud newidiadau i'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd. Dylech allu dod o hyd i'r fersiwn diweddaraf o'r Hysbysiad Preifatrwydd ar wefan bob Corff Dyfarnu'r CGC. Mae ymweld yn rheolaidd â'r gwefannau hynny yn sicrhau eich bod bob amser yn ymwybodol pa wybodaeth rydym yn ei chasglu, sut rydym yn ei defnyddio ac ym mha amgylchiadau y byddwn yn ei rhannu â phartïon eraill.

16.2 Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau am y newidiadau rydym yn eu gwneud o bryd i'w gilydd, rhowch wybod i ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarperir uchod yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn.

## 17 <u>Rydym yn Gwerthfawrogi eich Sylwadau</u>

17.1 Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau ynghylch yr Hysbysiad Preifatrwydd, gallwch anfon e-bost atom gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarperir uchod yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn.

Fersiwn Rhagfyr 2018